

Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth baratoi a chynnal gweithgareddau grŵp. Mae hyn yn cynnwys hybu cyfranogiad unigolion, paratoi a chefnogi unigolion a'r grŵp drwy weithgareddau, a chyfrannu at werthuso gweithgareddau'r grŵp. Mae hefyd yn cynnwys cyfrannu at hybu'r grwpiau cefnogi presennol, cyfrannu at ffurfio grwpiau i gefnogi anghenion unigolion, a chefnogi unigolion a grwpiau i redeg eu grwpiau eu hunain.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill i baratoi a chynnal gweithgareddau grŵp i unigolion
2. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am grwpiau, unigolion a gweithgareddau
3. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gadarnhau'r pwrpas a'r canlyniadau y bydd gweithgareddau'r grŵp yn anelu at eu cyflawni
4. gweithio mewn partneriaeth i nodi sut y bydd gweithgareddau'r grŵp yn cael eu cytuno, eu paratoi a'u gweithredu yn unol â dewisiadau'r grŵp ac anghenion unigolion
5. cynorthwyo unigolion i nodi a chael gafael ar wybodaeth, adnoddau neu gymorth i ddewis a chymryd rhan mewn gweithgareddau
6. annog a chefnogi pob unigolyn yn y grŵp i ddewis a chaniatáu i'r gweithgareddau y cytunwyd arnynt
7. adolygu neu gwblhau asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau grŵp
8. cefnogi unigolion ac eraill i baratoi amgylcheddau ac adnoddau ar gyfer gweithgareddau grŵp
9. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gyflwyno a monitro gweithgareddau grŵp
10. annog a chefnogi pob unigolyn yn y grŵp i baratoi ar gyfer gweithgareddau grŵp a chymryd rhan ynddynt
11. cymryd cyfrifoldeb dros gefnogi eraill i adael amgylcheddau'n barod i'w defnyddio y tro nesaf ar ôl gweithgareddau'r grŵp
12. cefnogi unigolion ac eraill i roi adborth ar sut mae gweithgareddau'r grŵp wedi cwrdd â'r canlyniadau y cytunwyd arnynt yn ogystal â gofynion unigolion
13. rhoi adborth ar sut mae gweithgareddau'r grŵp wedi cwrdd â'r canlyniadau y cytunwyd arnynt yn ogystal â gofynion unigolion
14. gweithio mewn partneriaeth i nodi a gwneud newidiadau i weithgareddau'r grŵp at y tro nesaf
15. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer paratoi a chynnal gweithgareddau grŵp
16. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i baratoi a chynnal gweithgareddau grŵp

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth am weithgareddau grŵp, a sut mae adolygu'r wybodaeth honno
2. sut mae cwblhau neu adolygu asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau grŵp
3. sut mae annog unigolion i ddewis a chymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp
4. sut mae cefnogi niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol unigolion drwy addasu gweithgareddau grŵp
5. dylanwad diwylliant a chefnidir unigolyn ar ddewis a chymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp
6. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi unigolion i ddewis a chymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp
7. effaith gweithgareddau grŵp ar lesiant unigolion a'r grŵp cyfan
8. y mathau o wybodaeth, adnoddau a rhwydweithiau cymorth a allai helpu unigolion yn ystod gweithgareddau'r grŵp, a sut i gael gafael arnynt
9. sut mae cael gafael ar wybodaeth unigolion mewn perthynas â gweithgareddau grŵp ehangach, a sut mae darparu'r wybodaeth honno
10. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i baratoi ar gyfer gweithgareddau grŵp a'u defnyddio yn ystod y gweithgareddau hynny
11. y mathau o amgylcheddau sydd fwyaf addas ar gyfer gweithgareddau grŵp, a sut i'w paratoi
12. y mathau o adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gweithgareddau grŵp a sut i gael gafael arnynt
13. sut mae cefnogi eraill i baratoi amgylcheddau ac adnoddau ar gyfer gweithgareddau grŵp
14. y mathau o arferion cynaliadwy y gellir eu defnyddio wrth baratoi a chynnal gweithgareddau grŵp
15. y gwahanol sgiliau y gall eraill eu cyfrannu at weithgareddau grŵp, a sut i'w defnyddio
16. sut mae monitro cyfranogiad mewn gweithgareddau grŵp
17. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp
18. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol yn ystod gweithgareddau grŵp
19. ffyrdd o gefnogi unigolion ac eraill i barhau â gweithgareddau grŵp heb eich cyfraniad

Paratoi a chynnal gweithgareddau grŵp

20. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i adolygu, rhoi adborth a gwneud newidiadau i weithgareddau grŵp
21. sut y gall newidiadau i ddewisiadau, amodau ac amgylchiadau unigolion effeithio ar y cymorth sydd ei angen ar gyfer gweithgareddau grŵp
22. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer paratoi a chynnal gweithgareddau grŵp
23. theorïau sy'n berthnasol i baratoi a chynnal gweithgareddau grŵp
24. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer paratoi a chynnal gweithgareddau grŵp
25. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydaddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth baratoi a chynnal gweithgareddau grŵp
26. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i baratoi a chynnal gweithgareddau grŵp
27. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi yn ystod gweithgareddau grŵp
28. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth baratoi a chynnal gweithgareddau grŵp, a sut i fynd i'r afael â hyn
29. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth baratoi a chynnal gweithgareddau grŵp

Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Datblygwyd gan	Skills for Care & Development
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	31 Ion 2026
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Ion 2031
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Skills for Care and Development
RCU gwreiddiol	HSCCLD326
Galwedigaethau perthnasol	Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant
Cyfes/Set	Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu
Geiriau Allweddol	Paratoi a Chynnal Gweithgareddau Grwp, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu